CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Fawrth, 29 Awst, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A),Mr P Day, (Benllech B), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch),Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B).

56 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Miss N Williams, (Benllech B).

57 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Ni wnaethpwyd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.

58 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 24ain o Orffennaf 2017.

yn codi o'r Cofnodion :-

59 (2017/2018) 33 – FANDALIAETH YNG NGHAER BERLLAN.

Eglurwyd gan y Clerc fod yr Heddlu wedi ymweld a pherson ynglyn a'r difrod a wnaed ym maes chwarae Caer Berllan. Yn anffodus nid y person oedd yn cael ei hamau o'r drosedd ydoedd. Nid oedd unrhyw ddatblygiadau pellach gyda ymholiadau'r Heddlu.

Yn anffodus roedd trosedd o'r un fath wedi digwydd eto yn yr union safle yn y maes chwarae ac roedd tystiolaeth ar y sustem teledu cylch cyfyng o'r drosedd. Mae'r Heddlu yn ymchwilio ac mae'r delweddau wedi ei hanfon i Heddlu Lerpwl, Manceinion yn ogystal a thrwy Gogledd Cymru.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

60 CYNGOR SIR YNYS MON – YMATEB I FATERION PRIFFYRDD.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Mon a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

61 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

62 STORFA FWYD NEWYDD Y CO-OP.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – ymateb gan y Co-op i'r pwyntiau a godwyd gan yr aelodau parthed adeiladu storfa fwyd newydd ar safle'r hen Feddygfa.

63 CYNGOR SIR YNYS MON – FFORWM CYSWLLT CYNGHORAU TREF A CHYMUNED.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyswllt a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 13 Mehefin 2017 yn Siambr y Cyngor, Llangefni.

TALIADAU A CHYFRIFON.

64 BILIAU

PENDERFYNWYD – talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Photostatic	Llungopio	£18-64
Anghenion Swyddfa Gwynedd	Papur ayb	£90-92
The Sign Factory	Arwydd parcio	£36-00
Fred Rimmer	Tal Gorffennaf ac Awst.	£369-00

65 CYFRIFON.

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor)

yng Ngorffennaf 2017.

66 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd mis Gorffennaf 2017.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

67 LLYFRGELL BENLLECH.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Sir Ynys Mon, Adran Llyfrgelloedd, yn manylu eu bwriadau i'r gwahanol Lyfrgelloedd ar yr Ynys i bwrpas yr Ymgynghoriad a fydd yn cau ar 22 o Fedi 2017. Bwriedir agor Llyfrgell Benllech am 16.5 o oriau dros 5 diwrnod gyda staff llawn. Fodd bynnag buasai elfen o gefnogaeth gan y gymuned yn ddymunol ac fe annogir cyd-leoli gyda phartneriaid o'r gymuned a'r Cyngor lle bo modd.

PENDERFYNWYD – buasai aelodau yn ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad gan fod y ddogfen wedi ei dylunio felly. Trafodwyd y posibilrwydd o sefydlu swyddfa y Cyngor Cymuned o fewn y Llyfrgell a gofynwyd i'r Clerc gysylltu a'r Adran Llyfrgelloedd i drafod ymhellach.

68 TOILEDAU BENLLECH - CYNNAL CYFARFOD CYHOEDDUS

Yn dilyn cais gan aelod i roi yr eitem yma ar y rhaglen, siaradodd Mr Jeff Cotterell o blaid cynnal cyfarfod cyhoeddus i drafod bwriad y Cyngor Cymuned i gymeryd trosodd rheolaeth y ddau doiled cyhoeddus a'r Llyfrgell yn y pentref. Trafodwyd y cais gan yr aelodau ac roedd teimlad fod y bwriad yn un dilys ond ar yr achlysur yma roedd arian wedi ei neilltuo ar gyfer y trosglwyddo ym mhresept 2017/2018 ac roedd cynlluniau wedi mynd yn rhy bell i'w newid. Yn ogystal roedd y posibilrwydd o bentref glan mor prysur fel Benllech heb doiledau yn achosi pryder.

PENDERFYNWYD – i barhau gyda y trosglwyddo bwriedig yn amodol ar eitem 71.

69 PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MON.

Derbyniwyd ebost gan y Pwyllgor Safonau yn hysbysu fod dwy sedd wag i gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned angen ei llenwi yn dilyn yr Etholiad ym mis Mai 2017. Roedd rhestr fer o enwebiadau ac ystyriwyd rhain gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD – i bleidleisio dros y Cynghorydd Iorweth Roberts a'r Cynghorydd Stanley Zalot.

70 ARCHWILIAD ALLANOL 2016/2017.

Cyflwynwyd llythyr y 7 Awst 2017 gan yr Archwiliwr Allanol BDO i'r aelodau. Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo newid y ffigwr ym mlwch 12 i £39,634, i adlewyrchu cynnwys y gwariant ar uwchraddio'r sustem Teledu Cylch Cyfyng ar Gofrestr Asedau'r Cyngor.

Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd at y diffyg cynnwys Cyfrifon y Cyngor Cymuned am y flwyddyn 2015/2016 ar y wefan.

PENDERFYNWYD – i ail gymeradwyo'r ffurflen flynyddol yn dilyn gwneud y newid uchod i flwch 12 a'r sylw parthed Gwefan y Cyngor Cymuned.

Hefyd i awdurdodi'r Cadeirydd, y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i ail awdurdodi'r ffurflen flynyddol.

71 CYNGOR SIR YNYS MON - TOILEDAU CYHOEDDUS BENLLECH.

Trafodwyd llythyr 21 Gorffennaf 2017 gan Adran Gwastraff, Cyngor Sir Ynys Mon parthed trosglwyddo Toiledau Cyhoeddus Benllech i reolaeth y Cyngor Cymuned. Eglurodd y Clerc fod gwahaniaethau yn y cynnigion rhwng llythyr blaenorol y Cyngor Sir (15 Mai 2017) a'r llythyr presennol. Nid oedd son am y canlynol yn y llythyr presennol ;

1 Taliad unwaith ac am byth sy'n cyfateb i gostau glanhau y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

2 Talu'n barhaus unrhyw gostau sy'n gysylltiedig a'r Dreth Cyngor.

Hefyd roedd y cymal canlynol yn y Brydles ddrafft a anfonwyd gyda'r llythyr;

"Bydd y tenant yn gyfrifol am dalu'r holl drethi, ardollau, asesiadau a threuliau fydd yn gysylltiedig gyda'r eiddo rwan ac yn y dyfodol"

PENDERFYNWYD – gofyn am eglurhad parthed y gwahaniaethau yn y ddau lythyr gan Adran Gwastraff cyn anfon cadarnhad pendant y Cyngor Cymuned i reoli'r toiledau i Gyngor Sir Ynys Mon. Hefyd gofyn am archwiliad o gyflwr toiled y sgwar gan fod rhai aelodau yn poeni am y dirywiad yn ei gyflwr.

72 GWASANAETH TELEDU CYLCH CYFYNG – GOFAL CYNNAL A CHADW.

Cafwyd gohebiaeth gan gwmni "CCTV Services" parthed cytundeb cynnal a chadw y gwasanaeth a fydd yn daladwy o'r 2 o Fedi ymlaen. Roedd y flwyddyn gyntaf yn ddi-dal ac yn rhan o gost uwchraddio'r sustem. Gan fod dwy elfen i'r cynnal a chadw, sef gwasanaeth aur a oedd yn £4349-24 a TAW neu wasanaeth arian oedd yn £3446-37 a TAW. Roedd y gwasanaeth aur yn gynhwysfawr ac yn cynnwys offer a llafur tra roedd y gwasanaeth arian yn cynnig llafur yn unig.

PENDERFYNWYD – gan fod yr offer bron yn newydd dewis y gwasanaeth arian.

73 PWYLLGORAU'R CYNGOR CYMUNED.

Gan fod aelodaeth y Cyngor Cymuned wedi cynyddu i 14 ers yr etholiad ym mis Mai, enwebwyd y canlynol fel cynrychiolwyr i lenwi'r bylchau ar y gwahanol Bwyllgorau a Sefydliadau :-

Neuadd Goffa Goronwy Owen	Mr G Harker-Roberts
Y Fynwent	Mrs Sioned Edwards
Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned	Mr Peter Day a Mrs Carol Hulme
Partneriaeth Chwarae	Mr Gareth Owen
Pwyllgor Cynllun Datblygu Lleol	Mr Peter Day a Mr Gareth Owen
Pwyllgor Teledu Cylch Cyfyng	Mr G Harker-Roberts a Mr Jeff Cotterell.

74 MAES PARCIO WAUN DIRION.

Adroddwyd fod y sefyllfa wedi ei datrys ac fod y modur wedi ei symud eisioes.

75 YMDDEOLIAD Y CLERC.

Cyhoeddodd y Clerc ei fwriad i ymddeol ar ddiwedd blwyddyn ariannol y Cyngor sef 31 Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD – gofyn i'r Pwyllgor Personel gyfarfod i ddechrau'r broses o hysbysebu am olynydd.

CYNLLUNIO

76 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C246	Tyn Pwll, Benllech
30C814	30 Breeze Hill, Benllech

2. Gwrthod :

30C16Y	St David's Holiday Park, Traeth Coch – Gwrthodir am yr un rhesymau a'r cais blaenorol a wnaed yn Awst 2016.Teimlir buasai datblygiad o unrhyw faint yn cael effaith barhaol ar yr olygfa gydol y flwyddyn. Mae'r ardal hon yn rhan o'r AHNE gyda Llwybr yr Arfordir yn agos, hefyd mae Castell Mawr yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Daeareg Arbennig. Dylid gwneud pob ymdrech i amddiffyn safleoedd o'r fath, mae gennym ddyletswydd i genedlaethau'r dyfodol.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-40 yr hwyr.